



CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Statws: Gwybodaeth

Categori: Polisi

Teitl: Rheoli Iechyd Poblogaethau

Dyddiad dod i ben / Dyddiad adolygu: amherthnasol

I'w weithredu gan:

Prif Weithredwyr, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Cynllunio, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Cyllid, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Meddygol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd

I'w weithredu erbyn: Amh

Anfonir gan: Dr Keith Reid, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol (Iechyd y Cyhoedd) a Sioned Reed, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd

Enwau cyswilt yn Llywodraeth Cymru: Lisa Wise MBE, Dirprwy Gyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru.

Lisa.Wise@gov.wales

Dogfennau amgaeedig:

Atodiad 1: Manteision PHM

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Annwyl Gydweithwyr,

Rheoli Iechyd Poblogaethau

Ysgrifennaf atoch heddiw i nodi diben rheoli iechyd poblogaethau (PHM), ei fanteision posibl a diffiniad y cytunwyd arno i gefnogi cynllunio a chyflawni yng Nghymru.

Diben a manteision PHM

Yng Nghymru, mae atal ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol yn ein hymdrech tuag at degwch iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd, a hefyd ein dull 'iechyd ym mhob polisi'. Mae hyn wedi'i ymgorffori drwy gydol ein fframweithiau deddfwriaethol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2017, y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025

Yn yr un modd, mae atal a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd wrth wraidd ein fframwaith strategol '*Cymru iachach*,' ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, ac felly hefyd y gwaith arfaethedig o dan y rhaglen 'Cymunedol o'r Cychwyn'.

Er gwaethaf y bwriad a nodir yn ein fframwaith deddfwriaethol a strategol, nid ydym wedi gweld newid yn y canlyniadau ar gyfer ein poblogaeth; mae adroddiadau a data diweddar yn dangos anghydraddoldebau ehangach mewn canlyniadau iechyd a llesiant a disgwyliad oes iach.¹

Yn y cyd-destun hwn, mae PHM yn hwylusydd allweddol, gan helpu'r system iechyd a gofal i ddefnyddio'r data gorau sydd ar gael (gan gynnwys data cysylltiedig lle bo modd) i gefnogi'r symudiad tuag at atal rhagofalus, canfod yn gynnar a rheoli rhagweithiol, gan ganolbwyntio ar ymyriadau a chanlyniadau sy'n bwysig i bobl. Mae dull "sy'n seiliedig ar ddata" o gynllunio yn cydnabod pwysigrwydd ychwanegol data ansoddol ochr yn ochr â data meintiol. Mae ymgysylltu ystyrion â rhanddeiliaid, er enghraifft drwy gyd-gynhyrchu, casglu profiad bywyd, a deall ffactorau lleol sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant hefyd yn elfennau allweddol i gefnogi cyflawni.

Diffiniad y cytunwyd arnynt - Rheoli Iechyd Poblogaethau

Mae'r diffiniad y cytunwyd arno yn dilyn gwaith Grŵp Gorchwyl a Gorffen PHM wedi'i nodi isod:

"Dull sy'n gwella iechyd y boblogaeth drwy gynllunio ar sail data a darparu gofal rhagweithiol i sicrhau'r effaith fwyaf ar iechyd a llesiant y boblogaeth yw PHM.

¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2024. Healthy life expectancy in England and Wales: between 2011 to 2013 and 2021 to 2023. Ar gael o: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/bulletins/healthstatelifeexpectanciesuk/between2011to2013and2021to2023> [cyrchwyd 17/10/25]

Defnyddir setiau data cysylltiedig i segmentu, haenu a modelu'r grwpiau poblogaeth lleol "mewn perygl" a "risg gynyddol" sydd yn eu tro yn cael eu defnyddio i ddylunio, targedu a phersonoli ymyriadau i ddarparu gofal rhagweithiol a chyffredinolïaeth gymesur i leihau anghydraddoldebau iechyd".

Gellir cymhwyso technegau gwybodaeth megis segmentu poblogaeth ac offer pennu lefel risg yn annibynnol neu ar y cyd â PHM i ddarparu dealltwriaeth fwy cyfannol o angen y boblogaeth i gynllunio a datblygu ymyriadau.

- Mae **segmentu** yn rhannu poblogaeth yn grwpiau tebyg yn seiliedig ar feini prawf penodol. Mae dadansoddiad manwl yn galluogi nodweddion penodol i gael eu nodi o fewn segment a allai gyfrannu at ddefnydd uchel o wasanaethau neu ganlyniadau gwael. Yna gellir nodi segmentau sydd â'r nodweddion hyn (neu sydd mewn perygl o'u datblygu) cyn iddynt gyrraedd gwasanaethau rheng flaen.
- Mae **pennu lefel risg** yn grwpio unigolion yn ôl eu risg o brofi digwyddiad andwyol, megis canlyniad iechyd neu lesiant neu ddefnyddio gofal iechyd.

Gall PHM gefnogi nodi ymyriadau a fydd yn gweithio ar gyfer grwpiau penodol o'r boblogaeth. Bydd angen defnyddio'r adnoddau hyn ar gyfer cyflawni ac olrhain effeithiol i nodi beth i'w atal, ei fireinio a'i gyflymu i gyflawni'r canlyniadau angenrheidiol.

Mabwysiadu

Mae dull PHM yn rhan annatod o'r rhaglen 'Cymunedol o'r Cychwyn' gyda'r nod o gyflymu'r broses o ddarparu gwasanaethau integredig yn y gymuned a sicrhau gwelliannau mewn canlyniadau iechyd yng Nghymru.

Rhagwelir y bydd Clinigwyr (megis meddygon teulu, nyrsys, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd), cynllunwyr, comisiynwyr, dadansoddwyr, ymarferwyr iechyd cyhoeddus, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, sefydliadau ehangach y GIG (megis Iechyd Cyhoeddus Cymru), a chyrrff y sector cyhoeddus ehangach yn defnyddio dulliau PHM yn eu gwaith.

Mae rhannu'r diffiniad a'r diben y cytunwyd arnynt yn cefnogi cynllunio'r GIG a datblygiadau presennol a datblygiadau'r dyfodol ar draws y system. Mae'r rhaglen 'Cymunedol o'r Cychwyn', a arweinir gan y Prif Swyddog Meddygol, yn ystyried y dull cenedlaethol a'r disgwyliadau ar gyfer atal gan gynnwys defnyddio PHM fel rhan annatod o wasanaethau iechyd cymunedol. Mae hyn yn cynnwys nodi camau gweithredu allweddol i fynd i'r afael â rhwystrau gan gynnwys rhannu data yn gyfreithlon ac yn angenrheidiol ar draws systemau.

Bydd yn bwysig hefyd rannu dysgu gan gynnwys olrhain ymyriadau i nodi beth sy'n gweithio i fagu hyder yn y defnydd o PHM ar draws y system gyfan, ac ar draws penderfynyddion ehangach iechyd, a chefnogi datblygu sgiliau ac arbenigedd.

Rwyf yn edrych ymlaen at weld datblygiadau pellach yn y defnydd o PHM wrth i'r gwaith hwn barhau i ddatblygu a thyfu.

Yn gywir

Handwritten signature of Dr Keith Reid, consisting of stylized initials 'KR' followed by a surname 'Reid'.


Dr Keith Reid

Dirprwy Brif Swyddog Meddygol (Iechyd y Cyhoedd) Cyfarwyddwr, Iechyd y Cyhoedd

Handwritten signature of Sioned Rees, written in a cursive style.

Sioned Rees

Atodiad 1: Manteision PHM

Tabl 1: Manteision PHM:	
 <p>Cynllunio strategol</p> <p>Gofal uniongyrchol</p>	<p>Canlyniadau ar lefel system</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflawni nodau cyffredin drwy ddefnyddio dull, iaith ac offer cyffredin ar lefel system gyfan. • Deall aneffeithlonrwydd a sbardunau amrywiad diangen a lleihau bylchau yn y ddarpariaeth ofal. • Defnydd effeithlon o adnoddau drwy seilwaith a rennir, asedau cyfunol, a lleihau dyblygu • Segmentu poblogaeth gyfan i ddeall baich anghydraddoldeb i gyflawni tegwch ar draws gwahanol grwpiau a sut y mae hyn yn sbarduno canlyniadau, defnydd a risg ariannol. • Dysgu a rhannu: ymgorffori PHM o fewn cylch dysgu ailadroddol
	<p>Canlyniadau lefel lle (e.e. bwrdd iechyd lleol)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofal iawn, amser iawn, tîm iawn: Gall PHM leihau dyblygu gofal, gan leihau gofynion llwyth gwaith ar draws iechyd a gofal cymdeithasol a'r system ehangach. • Nodi a deall dosbarthiad yr angen ar draws y boblogaeth i lywio ymyriadau a dyrannu adnoddau cyfyngedig yn well. • Rhag-weld gofynion yn y dyfodol a hwyluso ffocws ar ddylunio gwasanaeth cynaliadwy. • Adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwerth ymyriadau a'u canlyniadau, a fydd yn cefnogi penderfyniadau comisiynu a datgomisiynu. • Adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cymhwysio dulliau PHM, gweithredu profion, a deall gwerth ychwanegol a manteision
	<p>Canlyniadau ar lefel person ac unigol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datgelu angen heb ei ddiwallu: Gall PHM nodi pobl nad ydynt yn ymwybodol o'u hanghenion gofal a chymorth, yn ogystal â phobl ag anghenion gofal nad ydynt yn hysbys i wasanaethau eto. • Gwella'r profiad gofal: Nod PHM yw darparu gofal cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar y person, gyda gwasanaethau sy'n gwrando ar "<i>beth sy'n bwysig</i>", a darparu cymorth yn agosach at adref. Gall PHM nodi unigolion a fyddai'n elwa o atal ac ymyrraeth gynnar wedi'i thargedu a gwell i leihau morbidrwydd a marwolaethau y gellir eu hosgoi. • Grymuso pobl: Gall gwasanaethau iechyd a gofal ddod yn fwy rhagweithiol wrth helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant. • Gwella iechyd a llesiant: lleihau marwolaeth gynamserol y gellir ei hatal, cynyddu atal sylfaenol.